Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Clwb Gofal Teilo Sant**

**Ysgol Gymraeg Teilo Sant**
**Stryd Rhosmaen**
**Llandeilo**
**SA19 6LU**



## Dyddiad yr arolygiad wedi'i gwblhau

16/03/2022

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2022.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio logos) yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau Trwydded Agored y Llywodraeth. Gallwch weld Trwydded Agored y Llywodraeth ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk. Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir, a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Ynglŷn âClwb Gofal Teilo Sant

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarpeir | Gofal Dydd Plant<br>Gofal y tu allan i Oriau Ysgol |
| Darparwr Cofrestredig | Gofal Plant Cyf |
| Uchafswm y lleoedd cofrestredig | 36 |
| Iaith y gwasanaeth | Cymraeg |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | Dyma arolwg cyntaf y gwasanaeth |
| Ydy hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg? | Na |
| Ydy'r gwasanaeth hwn yn darparu cynnig gweithredol y Gymraeg? | Ydy. Mae'r gwasanaeth yn darparu'r 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg ac anghenion diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |

## Crynodeb


Mae plant yn hapus ac yn annibynnol o fewn y lleoliad. Mae plant yn datblygu perthnasau da gyda'i gilydd ac yn gwneud rhai dewisiadau yn y gweithgareddau sydd yn cael eu paratoi iddynt.

Mae'r staff gofal yn adnabod y plant yn dda ac yn darparu gofal priodol. Maent yn cynnig gwasanaeth sydd yn ddiogel ac yn cwrdd ag anghenion y plant ar adegau. Mae'r staff gofal yn ymateb ac yn rhyngweithio yn bositif gyda'r plant rhan fwyaf o'r amser.

Mae'r pobl sydd yn rhedeg y lleoliad yn darparu amgylchedd sydd yn cynnig rhai cyfleoedd chwarae da gan ddefnyddio rhai adnoddau priodol. Mae'r ardal allanol yn cynnig gofod mawr a diogel ar gyfer chwarae annibynnol. Mae hwn yn cynnig cyfleoedd ychwanegol ar gyfer chwarae a datblygiad.

Mae'r pobl sydd yn rhedeg y lleoliad yn cynnig amserlen sydd yn galluogi'r plant i ddilyn trefn. Mae rhai gweithdrefnau yn glir ac mae adborth gan rhieni yn bositif. Fodd bynnag, mae agweddau o arweinyddiaeth a rheolaeth angen sylw.

| **Llesiant** | **No Rating Required** |
|---|---|

Mae plant yn hyderus i sgwrsio gyda staff gofal a ffrindiau ac yn gwneud dewisiadau deallus ynghylch bwyta a chwarae. Mae’r plant yn rhydd i symud o un weithgaredd i’r llall ac yn dewis bod tu fewn i’r lleoliad neu tu allan. Maent yn chwarae gyda’r adnoddau sydd yn cael eu gosod allan iddynt gan y staff gofal. Fodd bynnag, nid ydynt yn gwneud defnydd o’r adnoddau eraill sydd ar gael iddynt. Ar y cyfan, mae plant yn hyderus i gyfathrebu mewn ystod o ffyrdd yn ôl eu hoedran a’u datblygiad. Er enghraifft, maent yn dewis cael brechdanau neu beidio ac yn penderfynu ar y llenwad. Mae plant yn hapus ac yn creu perthnasau positif gyda’i gilydd. Er enghraifft mae plant yn dweud eu bod yn hoffi cymysgu gyda phlant yr un oedran a phlant o ddosbarthiadau eraill. Mae plant yn gyfarwydd â threfn y lleoliad ac yn dangos eu bod yn teimlo’n ddiogel wrth symud yn rhydd tu fewn a thu allan.

Mae plant yn garedig ac ystyriol tuag at ei gilydd. Maent yn rhannu gweithgareddau yn dda ac yn cymryd tro. Mae plant yn gwrtais ac yn dweud plîs a diolch yn gyson wrth iddynt dderbyn diod neu snac. Yn ystod gweithgareddau, mae plant hŷn yn dangos parch. Er enghraifft, wrth i blentyn iau ymuno yn gweithgaredd peintio, mae plant hŷn yn cefnogi ac yn cynnig canmoliaeth wrth ddweud “*ohh da iawn, ond bydd ofalus i ddim cymysgu’r lliwiau”*.

Mae plant yn datblygu yn dda, ac yn hyderus i ddiddori eu hunain a chreu cyfleoedd chwarae gyda phlant eraill. Mae’r plant yn mwynhau’r cyfle i weithio, rhannu syniadau a chyfathrebu yn hapus, yn y weithgaredd peintio. Mae plant yn gymdeithasol ac yn hyderus i drafod a chwestiynu yn agored gyda’i gilydd ac ymwelwyr. Mae plant yn datblygu sgiliau i fod yn annibynnol er enghraifft gwisgo cotiau i fynd tu allan. Mae plant yn y lleoliad yn cymdeithasu a chwarae yn hapus o fewn y lleoliad ac yn eistedd wrth y byrddau i chwarae gyda’r adnoddau, er enghraifft, gemau, tŷ mawr doliau a Lego.

| Gofal a Datblygiad | No Rating Required |
| --- | --- |

Ar y cyfan, mae’r staff gofal yn hybu iechyd a diogelwch y plant yn weddol llwyddiannus. Er enghraifft, trwy annog y plant i olchi eu dwylo cyn amser snac a defnyddio’r adnoddau saniteiddio yn y lleoliad. Fodd bynnag, nid yw hwn yn digwydd yn rheolaidd. Mae staff gofal yn sicrhau bod adnoddau sychu dwylo papur ar gael i’r plant ac mae hwn yn amlwg yn rhan o’r drefn. Mae rhan fwyaf o staff gofal wedi cwblhau hyfforddiant diogelu. Fodd bynnag, nid yw pawb yn glir o ran gweithdrefnau diogelu. Wrth baratoi byrbrydau, mae staff gofal yn sicrhau glendid ac arferion clir drwy wisgo menig a chlirio byrddau.

Ar y cyfan, mae’r staff gofal yn darparu gofal sydd yn ddiogel ac yn cwrdd â gofynion sylfaenol y plant yn effeithiol. Pan yn paratoi a chynnig brechdanau, maent yn ymateb yn dda i ddymuniadau’r plant am y cynnwys. Maent yn dewis a gosod adnoddau ar eu cyfer ac ar adegau yn cynnig cyfleoedd am weithgareddau gwahanol, fel peintio. Fodd bynnag, nid oes llawer o rhyngweithio a thrafod yn gyffredinol gyda’r plant, ac nid ydynt yn annog plant i ddewis adnoddau eu hunain, ac felly yn cyfyngu ar gyfleodd annibyniaeth.

Mae’r staff gofal yn brofiadol a chymwys ac yn gyfarwydd â threfniadau’r gwasanaeth. Maent yn ymateb yn dda i ofynion a dymuniadau’r plant, er enghraifft rhoi dewis o ba ffilm i wylio ac yna paratoi yr ardal ar eu cyfer.

| Yr Amgylchedd | No Rating Required |
|---|---|

Mae’r lleoliad yn rhedeg o gaban sydd wedi ei leoli ar dir yr ysgol. Mae’r amgylchedd yn ddiogel ac nid oes mynediad i’r lleoliad heb caniatâd swyddogol staff gofal. Lleolir y caban drws nesaf i brif fynedfa yr ysgol lle ceir mynediad parhaol i doiledau a chyfleusterau golchi dwylo. Mae’r pobl sydd yn rhedeg y lleoliad yn darparu saniteiddiwr dwylo wrth y brif fynedfa ac yn gosod trefniadau yn eu lle i gadw plant yn ddiogel. Mae asesiadau risg y lleoliad yn eu lle ac mae’r pobl sydd yn rhedeg y lleoliad yn cadw cofnod ymwelwyr a chofnodion plant, yn ogystal a ffeil rhifau ffôn mewn argyfwng. Mae datganiad o ddiben y lleoliad yn nodi bod y gwasanaeth hefyd yn cael ei rhedeg o un stafell arall yn yr ysgol.

Mae’r pobl sydd yn rhedeg y lleoliad yn cynnig adnoddau boddhaol ac mae rhain yn cael eu cadw o fewn cypyrddau yn y brif ystafell. Er bod ystod o adnoddau ar gael i’r plant, dewis bach a welwyd ar ddiwrnod yr arolwg gyda’r adnoddau yma yn cael eu gosod allan ar gyfer y plant. Mae’r plant yn cael mynediad barhaol i’r iard tu allan ac yn mwynhau’r rhyddid i symud tu fewn a thu allan yn ystod y sesiwn. Er bod yr ardal allanol cyfagos yn cynnwys cegin fwd a sied adnoddau boddhaol nid yw’r plant yn defnyddio rhain. Nid yw’r adnoddau wedi’u diweddaru’n ddiweddar.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth — No Rating Required

Mae'r pobl sydd yn rhedeg y lleoliad yn cadw cofnodion boddhaol sydd, ar y cyfan, yn adlewyrchu'r gwasanaeth sydd yn cael ei ddarparu, ac yn dangos bod trefn dyddiol y clwb yn gywir. Fodd bynnag, er bod cofnodion yn cael eu diweddaru yn flynyddol, nid yw rhai dogfennau, er enghraifft y datganiad o ddiben yn cynnwys gwybodaeth cywir. Mae goruchwyliaeth staff gofal yn cael ei wneud, ond nid yw hwn yn cael ei gofnodi.

Mae'r pobl sydd yn rhedeg y lleoliad yn cwblhau adroddiad ansawdd y gofal sydd yn cynnwys tystiolaeth eu bod yn casglu adborth defnyddwyr y clwb yn ogystal â'r staff gofal drwy holiaduron. Mae'r pobl sydd yn rhedeg y clwb yn defnyddio dull o hunan-werthuso'r gwasanaeth ac yn cadarnhau bod yr adborth yn dangos bod canran uchel o rhieni a gofalwyr yn hapus gyda'r ffordd mae'r lleoliad wedi rhedeg yn ystod cyfnod COVID-19 ac yn hapus gyda ansawdd y gofal. Mae'r pobl sydd yn rhedeg y clwb hefyd yn cadarnhau bod y plant wedi dweud hoffent weld mwy o chwarae 'messy', coginio, chwaraeon a 'trips' i'r parc, ond ni welwyd tystiolaeth o rhain ar ddiwrnod yr ymweliad.

Mae'r pobl sydd yn rhedeg y clwb yn gofalu am y staff gofal sydd yn gweithio yn y lleoliad. Mae'r staff gofal sydd yn gweithio yn y lleoliad yn dweud eu bod yn hapus a'u bod wedi gweithio yn y lleoliad am nifer o flynyddoedd, ac mae ffeiliau y staff a'r adroddiad ansawdd y gofal yn adlewyrchu hyn.

Mae gan y bobl sydd yn rhedeg y lleoliad a'r defnyddwyr, bartneriaethau da. Maent yn cyfathrebu gyda rhieni drwy ddull drws agored, lle mae staff gofal yn siarad ac yn cynnig adborth ar lafar ar ddiwedd bob sesiwn, ac fe welwyd hyn ar ddiwrnod yr ymweliad. Roedd y rhieni a siaradwyd â hwy ar ddiwrnod yr ymweliad yn bositif am y gofal ac yn canmol y clwb. Mae gan y bobl sydd yn rhedeg y clwb, bartneriaeth da gyda'r ysgol.

**Argymhellion er mwyn cydymffurfio â'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol**

Ychwanegwch R1. R2. ac ati a'r geiriad sydd ei angen â llaw. Nid rheoliadau yw'r rhain, ond safonau gofynnol cenedlaethol.

R 1: Sicrhau bod dealltwriaeth a gweithdrefnau diogelu plant yn adlewyrchu arfer y gwasanaeth

R 2: Sicrhau cysondeb yng ngweithdrefnau glendid y gwasanaeth.

R 3: Sicrhau ystod eang o ddewis adnoddau a gweithgareddau wedi eu trefnu ar gyfer y plant.

R 4: Diweddaru'r datganiad o ddiben i adlewyrchu sut mae'r lleoliad yn cael ei rhedeg.

R 5: Diweddaru polisïau a Llawlyfr y Clwb.

R 6: Cofnodi nodiadau goruchwyliaeth staff.

R 7: Gwirio bod cymhwyster Cymorth Cyntaf yn cynnwys 'pediatrig'.

| Crynodeb o'r achos o ddiffyg cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd y diffyg cydymffurfio hwn yn yr arolygiad. |
| **Wedi ei adolygu** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn yr adolygiad hwn ond ni chafodd ei chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb ei gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn yr adolygiad hwn ond ni chafodd ei chyflawni. |
| **Wedi ei gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn yr adolygiad hwn ac fe'i cyflawnwyd. |

Rydym yn ymateb i ddiffyg cydymffurfiaeth â'r rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a / neu risg i'w llesiant eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Mae'n rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i fynd i'r afael â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad | Dd/G |

Pan rydym yn canfod achos o ddiffyg cydymffurfio â'r rheoliadau ond nad oes unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn eu hamlygu fel Meysydd i'w Gwella.

Rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu er mwyn unioni hyn, a byddwn yn ei ystyried eto yn ystod yr arolygiad nesaf. Os bydd y darparwyr wedi methu â chyflawni'r gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

**Meysydd I'w Gwella**

| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
|---|---|---|
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad | Dd/G |

| Graddau | Yr hyn y mae'r graddau yn ei olygu |
|---|---|
| **Rhagorol** | Mae'r rhain yn wasanaethau sy'n ymrwymedig i wella'n barhaus ac mae ganddynt lawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Dyma wasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hyrwyddo eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Mae'r rhain yn wasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella.<br>Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hybu llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Mae'r rhain yn wasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na.<br>chryfderau ac mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Lle mae gwasanaethau'n wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn cyflwyno hysbysiad diffyg cydymffurfio. |

**Dyddiad Cyhoeddi** 24/05/2022